Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Dewi Sant

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/11/2015**

## Cyd-destun

Ysgol ddydd a phreswyl annibynnol yw Coleg Dewi Sant sy'n addysgu bechgyn a merched rhwng 9 ac 18 oed.  Prif adeilad yr ysgol yw Neuadd Gloddaeth, sef plasty o'r unfed ganrif ar bymtheg sydd wedi'i leoli mewn 34 erw o dir ychydig i'r de o Landudno yng Ngogledd Cymru.

Agorwyd yr ysgol ym 1965, yn elusen addysgol a sefydlwyd trwy Weithred Ymddiriedolaeth, er mwyn darparu addysg uwchradd o fewn fframwaith Cristnogol. Cenhadaeth yr ysgol yw "datblygu'r unigolyn cyfan trwy addysg eang sy'n seiliedig ar egwyddorion Cristnogol, dewis eang o ddiddordeb a gweithgarwch, a rhaglen bersonol gyflawnadwy ar gyfer pob disgybl".  Caiff yr ysgol ei gweinyddu gan fwrdd llywodraethwyr.

Mae 238 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.  Mae 20 disgybl rhwng 9 ac 11 oed, 130 o ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed, ac 88 disgybl arall yn y chweched dosbarth.  Mae 104 o ddisgyblion yn lletywyr.

Mae Coleg Dewi Sant yn addysgu disgyblion sydd ag ystod eang o wahanol alluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl yn academaidd.  Mae gan ugain y cant o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac fe gânt eu hariannu gan eu hawdurdodau lleol cartref.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf yn Hydref 2012.  Penodwyd y pennaeth yn Ionawr 2009.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- Mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac mae ganddynt yr hyder i ofyn am gymorth pan fydd angen
- Mae disgyblion yn awyddus i helpu ei gilydd ac yn ymfalchïo yn llwyddiant ei gilydd
- Mae disgyblion yn gwrtais a chroesawgar ag ymwelwyr
- Mae gwersi wedi eu cynllunio'n dda ac yn cynnal diddordeb pob disgybl
- Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cryf â Phrifysgol Bangor i ddatblygu medrau ac arbenigedd ei staff; mae'n ofynnol i bob un o'r athrawon ddilyn cymhwyster mewn anghenion addysgol arbennig
- Mae athrawon cymorth ac athrawon dosbarth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i fynd i'r afael ag anghenion canfyddadwy disgyblion
- Mae'r ysgol yn cynnig ystod ragorol o weithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau oddi ar y safle, sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion lwyddo
- Ceir system sefydledig o arsylwadau gwersi, sy'n cynnwys uwch reolwyr a phenaethiaid adran

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Ceir system sefydledig o arsylwadau gwersi, sy'n cynnwys uwch reolwyr a phenaethiaid adran, er nad yw arsylwadau gwersi'n canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi
- Nid yw pob dogfen bolisi yn cyfeirio at ddeddfwriaeth ac arweiniad cyfoes

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Wella'r broses arsylwi gwersi i gynnwys arfarniad o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion

A2 Datblygu prosesau effeithiol ar gyfer cadw cofnodion i sicrhau bod dogfennau polisi yn cael eu diweddaru ac yn adlewyrchu arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### Argymhelliad 1: Parhau i ddatblygu strategaethau i gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyson mewn perthynas â'r argymhelliad hwn. Mae wedi cynnal ymarfer mapio ar draws pob pwnc i bennu pa mor effeithiol y caiff llythrennedd a rhifedd eu hatgyfnerthu ar draws y cwricwlwm. Mae cynlluniau gwaith yn cynnwys cyfeiriad at agweddau ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd (FfLlRh). Mae rheolwyr yn monitro hyrwyddo medrau llythrennedd a rhifedd trwy arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau.

Mae pob disgybl yn sefyll y profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, ac mae'r ysgol yn cofnodi'r data hwn ochr yn ochr â sgorau profion eraill. Mae rheolwyr yn defnyddio'r data hwn i ddadansoddi cynnydd disgyblion a darparu ymyrraeth pan fydd angen.

Mae'r ysgol wedi rhoi ffocws clir ar lythrennedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaeth marathon llythrennedd, yn cynnwys pob adran, helpu staff i ddatblygu dealltwriaeth well o ffyrdd y gallant ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn bwriadu cynnal marathon rhifedd yn ystod y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi ei ddatblygu cystal.

**Argymhelliad 2: Mireinio prosesau arsylwi gwersi ymhellach fel bod rheolwyr yn gallu casglu ac arfarnu tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae penaethiaid adran yn gwneud defnydd effeithiol o ganllaw defnyddiol ar gyfer arsylwi gwersi i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu yn eu meysydd pwnc. Mae hyn yn darparu gwybodaeth gyson i uwch arweinwyr ynghylch ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Mae uwch arweinwyr a phenaethiaid adran yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i roi adborth ysgrifenedig defnyddiol i athrawon ar y cryfderau a'r gwendidau a arsylwyd ac maent yn gosod targedau unigol, pwnc ac ysgol gyfan ar gyfer gwella.

Fodd bynnag, nid yw'r broses arsylwi gwersi yn canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr, pan fydd yr addysgu yn rhagorol, bod athrawon yn rhannu eu harfer dda ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae penaethiaid adran yn gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau gwersi i nodi agweddau ar arfer dda o fewn eu meysydd pwnc. Maent yn rhannu'r wybodaeth hon yn effeithiol â'r grŵp staff ehangach mewn cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae athrawon yn elwa ar arsylwi eu cymheiriaid lle nodwyd addysgu rhagorol, ac mewn rhannu strategaethau i wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

**Argymhelliad 4: Parhau i ddatblygu rôl staff arbenigol mewn gwersi prif ffrwd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'n ofynnol i bob un o'r athrawon a benodir i swydd yn yr ysgol ddilyn cymwysterau arbenigol mewn perthynas ag anawsterau dysgu penodol. Mae hyn yn golygu bod gan staff ar draws yr ysgol ddealltwriaeth glir o strategaethau ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae athrawon cymorth yn mynychu gwersi prif ffrwd yn rheolaidd. Ceir ffocws clir ar gyfer y sesiynau hyn, sy'n cynnwys cynorthwyo ac arsylwi disgyblion unigol a thrafod strategaethau addysgu â'r athrawon dosbarth er mwyn helpu disgyblion i wneud cynnydd.

Trwy fynychu gwersi prif ffrwd, mae athrawon cymorth yn ennill dealltwriaeth well o'r anawsterau a gaiff disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn eu helpu i ddarparu cymorth targedig mewn gwersi tynnu allan.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5:  Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6:  Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7:  Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Coleg Dewi Sant |
| **Rhif yr ysgol** | 662/6017 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 15/09/2015 |
| **Perchennog** | Ymddiriedolaeth Dewi Sant |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 dirprwy bennaeth, 1 cyfarwyddwr polisïau, 1 cyfarwyddwr astudiaethau, 1 pennaeth cynorthwyol, 1 cydlynydd anghenion addysgol arbennig, 1 dirprwy gydlynydd anghenion addysgol arbennig, 56 athro, 1 caplan, 4 rhiant tŷ, 5 rhiant tŷ cynorthwyol, 3 staff meddygol |
| **Nifer y disgyblion** | 238 |
| **Darpariaeth** | Preswyl |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistig, Anawsterau dysgu penodol, Anawsterau dysgu cymedrol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/10/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 19/03/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 06/09/2012 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |